Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: Monitro gan Estyn

**t2 Group**
**Melrose Hall**
**Cypress Drive**
**Llaneirwg**
**Caerdydd**
**CF3 0EG**

**Dyddiad yr ymweliad: Mawrth 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Mark Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Steve Davies | Arolygydd Tîm |
| Steve Bell | Arolygydd Tîm |
| Sandra Barnard | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod T2 Group wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Ebrill 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yn tynnu'r darparwr o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Gwella cyfraddau llwyddo dysgwyr, yn enwedig prentisiaid uwch

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r darparwr wedi gwneud cynnydd cryf o ran gwella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau hyfforddi arnynt. Yn 2014-2015, fe wnaeth dysgwyr ar raglenni prentisiaeth sylfaen, prentisiaeth a phrentisiaeth uwch gwblhau'u fframweithiau yn llwyddiannus ar gyfraddau uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol ar gyfer darparwyr dysgu yn y gwaith yng Nghymru.

Yn 2015-2016, mae dysgwyr yn parhau i gyflawni'u fframweithiau hyfforddi ar gyfraddau tebyg i gymaryddion cenedlaethol. Mae hyn yn dangos gwelliant sylweddol yng nghyfraddau llwyddo dysgwyr ar brentisiaeth uwch dros y ddwy flynedd flaenorol. Mae dysgwyr sy'n ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth a phrentisiaeth sylfaen mewn iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal a busnes, gweinyddiaeth a'r gyfraith yn parhau i gyflawni'u fframweithiau hyfforddi ar gyfraddau tebyg i gymaryddion cenedlaethol.

Yn 2016-2017, mewn rhaglenni prentisiaeth uwch, prentisiaeth a phrentisiaeth sylfaen, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf tuag at gwblhau'u rhaglenni hyfforddi. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddysgwyr yn symud drwy'u rhaglenni ar gyfradd rhy araf, ac yn cwblhau'u rhaglenni gryn dipyn yn hwyrach na'r dyddiad y disgwylir iddynt wneud.

### Argymhelliad 2: Gwella medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r darparwr wedi cyflwyno ystod briodol o hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer rheolwyr datblygiad personol er mwyn eu helpu i wella medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol dysgwyr. O ganlyniad, mae rheolwyr datblygiad personol yn fwy hyderus wrth gyflwyno'r medrau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r adnoddau hyn yn cael eu defnyddio'n gyson gan yr holl staff ar draws y ddarpariaeth.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn elwa ar gymorth llythrennedd a rhifedd priodol gan reolwyr datblygiad personol yn y gweithle ac mewn sesiynau a addysgir. Mae rheolwyr datblygiad personol yn rhoi ffocws llymach ar integreiddio llythrennedd a rhifedd mewn gweithgareddau addysgu a dysgu. Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio adnoddau meysydd dysgu arbenigol yn dda i'w helpu gyda sillafu a rhifedd. Fodd bynnag, ar gyfer dysgwyr ar raglenni prentisiaeth uwch, nid yw'r adnoddau hyn yn cyfateb i lefel eu gallu bob amser.

Mae llawer o reolwyr datblygiad personol yn cywiro gwaith ysgrifenedig dysgwyr ac yn rhoi sylwadau adeiladol ynglŷn â gwelliannau y gellir eu gwneud mewn sillafu a gramadeg.  Fodd bynnag, nid yw llawer o reolwyr datblygiad personol yn defnyddio canllaw marcio llythrennedd a rhifedd y darparwr yn ddigon da.

Mewn ychydig o achosion, nid yw Medrau Hanfodol yn cael eu cyflwyno'n ddigon cynnar yn y rhaglen hyfforddi.  O ganlyniad, nid yw llawer o ddysgwyr yn gwybod beth yw eu targedau datblygiad ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

**Argymhelliad 3:  Herio dysgwyr yn effeithiol i ddatblygu'u potensial llawn mewn cymhwysedd ymarferol a gwybodaeth theori**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae rheolwyr datblygiad personol yn cynnal adolygiadau rheolaidd o ddysgwyr yn eu gweithle ac yn cofnodi deilliannau'r adolygiadau hyn yn briodol.  Fodd bynnag, mae rheolwyr datblygiad personol yn anghyson wrth osod a monitro targedau heriol ar gyfer cwblhau asesiadau dysgwyr.  O ganlyniad, nid yw'r holl ddysgwyr yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Cynhaliodd y darparwr gyfres o gyfarfodydd defnyddiol i gynnal adolygiadau cynnydd o ansawdd ar bortffolios dysgwyr.  Yn dilyn yr adolygiad, aeth y darparwr ati i hwyluso cymorth targedig buddiol i ddysgwyr sydd mewn perygl o beidio â chwblhau'u fframwaith o fewn yr amserlen a drefnwyd.  Mae'r cymorth targedig hwn yn golygu bod dysgwyr yn derbyn lefelau cymorth uwch a mwy o her i gwblhau asesiadau.  Fodd bynnag, mae nifer y dysgwyr sy'n cymryd mwy o amser i gwblhau'u fframweithiau hyfforddi yn rhy uchel o hyd.

Mae T2 Group wedi nodi a rhannu arfer orau mewn perthynas â darparu her ar draws ei holl staff hyfforddi.  O ganlyniad, cafodd staff hyfforddiant buddiol a ddatblygodd eu dealltwriaeth o agweddau allweddol, gan gynnwys technegau holi a safoni asesiadau.

Mae'r darparwr wedi gwneud cynnydd buddiol yn cysylltu asesiadau dysgwyr i gefnogi datblygu'u medrau yn eu gweithleoedd.  O ganlyniad, mae dysgwyr yn datblygu'u medrau gan ddefnyddio enghreifftiau sy'n fwy perthnasol i'w rôl swydd a'u cyfrifoldebau.

**Argymhelliad 4:  Sicrhau bod dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael cyfleoedd priodol i ymgymryd â dysgu ac asesu yn Gymraeg**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae ffocws cryfach gan y darparwr ar bwysigrwydd datblygu medrau Cymraeg dysgwyr.  Maent wedi cynyddu nifer ac ansawdd adnoddau i gefnogi datblygu hyfforddiant ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.  Mae'r rhain yn cynnwys cyflogi staff Cymraeg ychwanegol a datblygu a defnyddio deunyddiau hyfforddi ac asesu yn Gymraeg.  Mae nifer y dysgwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n ymgymryd â hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog wedi cynyddu.

Mae'r darparwr wedi gwneud nifer o welliannau defnyddiol i'r ffordd y mae'n darparu cyfleoedd priodol i ddysgwyr ymgymryd â dysgu ac asesu yn Gymraeg.

Mae'r darparwr wedi diwygio ei strategaeth ar gyfer y Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'r strategaeth yn ddogfen fanwl a phriodol ag iddi strwythur da, sy'n dangos sut mae'r darparwr yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn cyflawni eu hadolygiadau o gynnydd yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r darparwr yn ddigon blaenweithgar bob amser o ran annog dysgwyr sy'n siarad Cymraeg i ddatblygu'u medrau Cymraeg neu i gwblhau gwaith yn Gymraeg. O ganlyniad, mae staff addysgu ac asesu yn colli cyfleoedd i ddatblygu medrau Cymraeg dysgwyr.

Mae staff cyngor ac arweiniad y darparwr yn pwysleisio pwysigrwydd medrau Cymraeg.

**Argymhelliad 5: Gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael cyngor ac arweiniad cynhwysfawr wrth ymuno â rhaglenni hyfforddi**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r darparwr wedi cryfhau ei weithdrefnau cyngor ac arweiniad cychwynnol. Mae staff cyngor ac arweiniad cychwynnol wedi ymgymryd â hyfforddiant buddiol i ddatblygu'u medrau ymhellach. Mae rheolwyr cyfrifon y darparwr yn rhoi gwybodaeth berthnasol am gyngor ac arweiniad i'r holl ddysgwyr cyn iddynt ddechrau eu rhaglenni hyfforddi. Maent hefyd yn darparu proses ymsefydlu ddefnyddiol sy'n cwmpasu pob agwedd ar eu fframwaith prentisiaeth. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ddeall yn well beth yw eu cyfrifoldebau a beth yw gofynion eu rhaglenni hyfforddi.

Caiff ansawdd cyngor ac arweiniad cychwynnol i ddysgwyr ei fonitro gan y darparwr trwy nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys galwadau ffôn misol gan reolwyr cyfrifon i gyflogwyr, adolygu ymatebion arolwg dysgwyr, cyfweld â rhai sy'n gadael yn gynnar, arfarnu dogfennau cyngor ac arweiniad cychwynnol ac archwilio adolygiadau dysgwyr.

Mae rheolwyr yn ymgymryd ag arsylwadau buddiol amserlenedig o sesiynau cyngor ac arweiniad cychwynnol er mwyn sicrhau tystiolaeth uniongyrchol o'u heffeithiolrwydd. Defnyddiant y dystiolaeth hon yn briodol i gynllunio gweithgareddau hyfforddi staff yn y dyfodol.

Yn ddiweddar, mae'r darparwr wedi penodi rheolwr cyngor ac arweiniad cychwynnol newydd ac wedi sefydlu tîm newydd o staff recriwtio; y tîm hwn yw'r pwynt cyswllt cyntaf i lawer o ddysgwyr sy'n chwilio am brentisiaethau. Maent yn cynorthwyo cyflogwyr yn dda trwy ddarparu cyngor a chymorth recriwtio clir. Fodd bynnag, mae'r datblygiadau hyn yn rhai rhy ddiweddar i farnu'r effaith lawn.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r darparwr barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud cynnydd pellach.